Cwestiynau Cyffredin
Cymwysterau Lefel 2 a 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

Deall y Daith Asesu Ymarfer

Tachwedd 2021

Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Ymarfer a Theori

Nid yw Lefel 2 yn cynnig dewis da o unedau dewisol y gellir eu dewis yn B i ennill y credydau cywir heb fynd i mewn i grŵp C – a ellid edrych ar hyn ar gyfer y dyfodol?

Mae'r holl gymwysterau'n destun proses adolygu a fydd yn dechrau cyn bo hir. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o adborth cwsmeriaid, ymgysylltu â rhanddeiliaid a chysylltu â Cymwysterau Cymru.

Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Ymarfer a Theori

A oes angen amser addysgu a thystiolaeth ychwanegol arnom ar gyfer yr unedau ymarfer pan fydd dysgwyr yn symud ymlaen o Lefel 2 i Lefel 3 i lenwi'r bylchau mewn gwybodaeth?

Dylai dysgwyr ddangos sgiliau a gwybodaeth yn dibynnu ar lefel y cymhwyster y maent yn astudio tuag ato. Er enghraifft, mae dysgwr Lefel 2 yn gweithio mewn rôl gefnogol, tra bod dysgwyr Lefel 3 yn arwain ymarfer.

Mae'n ofynnol i ddysgwyr fodloni'r disgwyliadau o ran gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau. Ceir enghreifftiau ar sut i gyflawni hyn yn y Canllaw ar Gyflwyno'r Cymhwyster. Rhaid i farn yr aseswr fod ar lefel deilliannau dysgu; fodd bynnag, dylai'r aseswr ystyried cynnwys deilliant dysgu a chyd-destun llawn yr uned i lywio ei farn. Nid oes disgwyl i'r broses asesu ffurfiannol hon gael ei chyflwyno fel tystiolaeth, ond mae angen i aseswyr fod yn glir iawn ynghylch sut y maent wedi cyrraedd eu barn. Mewn perthynas â, ble mae'r dysgwr wedi'i gyrraedd yn ei daith asesu, integreiddio tystiolaeth i ymarfer, myfyrio a thystiolaeth atodol. Er enghraifft, tystiolaeth tyst arbenigol.

Mae'r cymhwyster yn cael ei asesu drwy'r tasgau sydd wedi'u cynllunio i ddangos pa mor effeithiol y gall dysgwr integreiddio gwybodaeth yn ymarferol i ddangos cymhwysedd. Gall lefel yr addysgu a'r dysgu sydd ei angen amrywio o ddysgwr i ddysgwr, disgwylir i ganolfannau ystyried hyn yn ystod y broses gynllunio. Efallai y bydd angen amser ychwanegol ar ddysgwyr nad ydynt yn gyflogedig ac yn cwblhau eu cymhwyster gan ddefnyddio lleoliad i ddatblygu'r sgiliau a'r cymwyseddau angenrheidiol.

Cwestiynau sy'n ymwneud â Lefel 2 a Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Ymarfer a Theori

A oes rhaid i'r pedwar cynllun fod ar yr un plentyn neu ar yr un grŵp oedran yn unig?

Mae'r tasgau asesu o fewn y cymhwyster wedi'u cynllunio i adlewyrchu gwaith y dysgwr gydag un plentyn, fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol gellir darparu ar gyfer mwy nag un plentyn. Mae canllawiau ar yr agwedd hon wedi'u cynnwys yn y pecyn asesu ar gyfer y cymhwyster. Dylai dysgwyr sy'n cwblhau mwy nag un uned sy'n gysylltiedig ag oedran ddefnyddio'r portffolio o dystiolaeth i arddangos eu cymwyseddau ar gyfer ystod oedran ychwanegol. Dylai'r dull hwn helpu i symleiddio'r broses Asesu ac osgoi unrhyw gymhlethdod neu ddyblygu diangen.

Sut gellir mesur ble mae'r dysgwr wedi'i gyrraedd yn ei daith asesu?

Mesurir ble mae'r dysgwr wedi'i gyrraedd yn ei daith asesu gan yr aseswr neu'r tyst lle mae dysgwr wedi datblygu sgìl neu gymhwysedd newydd o fewn y daith asesu.

Gallai hyn fod mewn perthynas â, er enghraifft, dod yn fwy hyderus ynghylch integreiddio gwybodaeth i ymarfer, dod yn fwy hyderus o fewn tîm neu gefnogi anghenion plant yn annibynnol. Byddai'r aseswr yn cofnodi mewn arsylwadau uniongyrchol neu'n fwy priodol yn ystod adborth.

A allwch groesgyfeirio adroddiadau myfyriol yn eu portffolios o Lefel 2 i Lefel 3 os ydynt wedi'u hysgrifennu'n dda ar gyfer y rhai sy'n symud ymlaen o L2 i L3?

Bydd dysgwyr sy'n cwblhau'r cymhwyster Lefel 2 ar leoliad yn ymarfer ar Lefel 2. Felly, maent yn annhebygol o fod â lefel yr ymreolaeth a fyddai'n nodwedd ar Lefel 3. Felly, mae'n annhebygol iawn y byddai myfyrio ar Lefel 2 yn cyfrannu'n sylweddol at dystiolaeth Lefel 3. Yn ogystal, disgwylir i ddysgwyr Lefel 3 ddefnyddio ychydig o wahanol fodelau o fyfyrio a byddai ganddynt wybodaeth a sgiliau llawer mwy cymhleth sy'n gofyn iddynt fyfyrio.

Mae'n ymddangos bod rhai newidiadau sylweddol i ganllawiau gwreiddiol, er enghraifft, peidio ag arsylwi ail ystod oedran dewisol. A oes rheswm am hyn?

Rhaid cyflwyno tystiolaeth sy'n gysylltiedig â pherfformiad ar gyfer pob uned sy'n gysylltiedig ag oedran a gwblhawyd. Bydd hyn yn cynnwys arsylwadau aseswyr, ac ar lefel 3 arsylwadau plant. Ein canllawiau yw bod y tasgau asesu yn canolbwyntio ar un uned sy'n gysylltiedig ag oedran a'r dystiolaeth ofynnol ar gyfer unrhyw unedau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag oedran a gyflwynir yn y portffolio o dystiolaeth.

Gall canolfannau ddewis adlewyrchu'r tasgau ar gyfer pob uned sy'n gysylltiedig ag oedran neu ddefnyddio dulliau asesu amrywiol i sicrhau bod gofynion yr uned yn cael eu bodloni'n llawn.

A allwch egluro a chadarnhau mai dim ond UN grŵp oedran y mae'n rhaid ei gynnwys?

Mae'n bosibl bodloni'r rheolau cyfuno ar gyfer y cymwysterau hyn drwy gwblhau un uned sy'n gysylltiedig ag oedran. Gall dysgwyr benderfynu dewis mwy nag un uned sy'n gysylltiedig ag oedran os dymunant; fodd bynnag, bydd hyn yn golygu bod angen mwy o dystiolaeth i gadarnhau cymhwysedd.

A yw'r log myfyriol yn dechrau ar y cam Craidd neu ddechrau'r Ymarfer?

Mae datblygu cymhwysedd dysgwyr wrth fyfyrio yn elfen hanfodol ar gyfer yr holl gymwysterau newydd a dylai gychwyn ar ddechrau'r daith ddysgu ffurfiannol a pharhau drwyddi draw.

Mae gallu dysgwyr i fyfyrio yn un o'r mesurau y dylid eu hystyried fel rhan o barodrwydd ar gyfer penderfyniad asesu. Dim ond ar ôl cael canlyniad cadarnhaol o ran parodrwydd ar gyfer y broses asesu y dylid cychwyn y log myfyriol ffurfiol, sy'n nodwedd o dasg A.

Sut mae asesu yn erbyn canlyniadau yn gweithio gydag e-bortffolios?

Y ganolfan sy'n gwneud y penderfyniad i ddefnyddio e-bortffolio. Cyn gwneud y penderfyniad hwn, dylai canolfannau sicrhau bod eu darparwr e-bortffolio yn gallu darparu cynnyrch sy'n cyd-fynd â strategaeth asesu'r cymwysterau hyn nad oes angen eu barnu ar lefel meini prawf asesu.

Bydd aseswyr yn ystyried cwmpas llawn y deilliannau dysgu cyn arfer barn aseswr o ran cymhwysedd. Gan gofio nad yw penderfyniad llawn o ran cymhwysedd yn bosibl nes bod pob tasg wedi'i chwblhau a'i hasesu. Mae rhannu'r asesu yn rhannau llai, h.y., olrhain MPA, yn aml yn gallu tynnu sylw oddi ar asesu cyfannol ac atal barn gyffredinol ddiogel a dibynadwy rhag cael ei gwneud.

A oes gennych unrhyw argymhellion ar faint o ddysgwyr y dyrennir i aseswr, gan fod hyn yn ymddangos fel llawer o waith i bob aseswr?

Nid yw City and Guilds a CBAC yn pennu maint llwyth gwaith aseswyr. Mae hwn yn benderfyniad canolfan a dylai fod yn seiliedig ar nifer o ffactorau.

Rydych yn sôn am dystiolaeth sy'n seiliedig ar berfformiad ar gyfer yr ail ystod oedran. Felly a fydd y dysgwr angen profiad gyda'r ystod oedran honno?

Ar gyfer pob uned sy'n gysylltiedig ag oedran a ddewisir, bydd angen i'r dysgwr ddangos profiad ymarferol o weithio gyda phob ystod oedran. Bydd tystiolaeth glir o hyn yn nhystiolaeth y dysgwyr.

A allwn ddefnyddio adolygiadau dysgu seiliedig ar waith i gofnodi a dangos ble mae'r dysgwr wedi'i gyrraedd yn ei daith asesu?

Gallwch, gellir defnyddio adolygiadau cynnydd i ddogfennu cynnydd a'r pellter a deithiwyd. Fodd bynnag, y prif ffordd o wneud hyn yw adborth aseswyr.

Os yw dysgwr mewn lleoliad ysgol blynyddoedd 1/2/3 sut y gallant ddangos tystiolaeth o gymeriant bwyd a symud plentyn?

Yr ystod oedran ar gyfer tystiolaeth gysylltiedig â pherfformiad yw 7 oed 11 mis, felly ni ddylai dysgwyr fod mewn lleoliadau Blwyddyn 3. Cyn dewis unedau cysylltiedig ag oedran, rhaid i ddysgwyr ac aseswyr ystyried a oes cyfleoedd lleoliad ar gael. Os yw dysgwr yn cael ei leoli mewn lleoliad ysgol yn unig, mae hyn yn cyfyngu ar ddethol unedau sy'n gysylltiedig ag oedran i blant 3–7 oed ac ni fydd y dysgwr yn gallu gwneud unedau 0-2 oed neu 2-3 oed.

Os nad yw dysgwyr wedi cael unrhyw brofiad gyda phlant/babanod iau, siawns na fyddai angen y profiad arnynt er mwyn myfyrio ar newid cewynnau, storio bwyd ac ati

Mae angen cyflwyno tystiolaeth sy'n gysylltiedig â pherfformiad ar gyfer unrhyw un o'r unedau sy'n gysylltiedig ag oedran a ddewisir. Bydd angen i ddysgwyr fod â phrofiad o weithio gyda phlant, er mwyn adlewyrchu'n effeithiol.

Beth os yw'r dysgwr yn gweithio gyda phlant dros 8 oed?

Ni ddylai dysgwyr sy'n gweithio gyda phlant dros 8 oed yn unig fod yn gweithio tuag at y cymwysterau hyn. Ystyriwch gymwysterau Cefnogi addysgu a dysgu neu waith chwarae.

A ydym ni fel aseswyr yn ymdrin â'r adran 'Rwy'n gwybod', neu ai'r tiwtoriaid sy'n gwneud hyn? Neu ydyn ni'n rhannu hyn?

Rhaid i aseswr cymwys a chymwysedig yn alwedigaethol wneud y penderfyniad terfynol o ran cymhwysedd. Mae'r strategaeth asesu ar gyfer y cymhwyster hwn yn cynnwys ymgorffori gwybodaeth a'i rhoi ar waith. Gall profi gwybodaeth ar wahân ymddangos fel rhan o'r broses addysgu a dysgu ffurfiannol, ond ni fyddai'n nodwedd o'r broses asesu grynodol.
Nid yw asesiadau sy'n seiliedig ar aseiniadau sy'n ceisio mesur gwybodaeth a dealltwriaeth yn unig yn nodwedd o'r strategaeth asesu hon.

Gyda myfyrio, a yw'r dysgwr yn cofnodi myfyrio ar y plentyn/gweithgaredd, ar y dysgwr yn bersonol neu'r ddau?

Wrth fyfyrio bydd y dysgwr yn rhoi sylwadau ar ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth ei hun o ymarfer a sut mae'n defnyddio hyn i fodloni anghenion y plentyn a'i ddatblygiad.
Mae hyn yn nodwedd ganolog i'r strategaeth asesu hon. At ddibenion asesu, mae myfyrio'n rhan o Dasg A/Ch/D ar Lefel 2 a Thasg A/C/Dd ar Lefel 3.

Beth am ddysgwyr sy'n gweithio gydag anghenion arbennig, a yw'r cymhwyster hwn yn addas?

Gall dysgwyr weithio gyda phlant ag anghenion dysgu ychwanegol cyn belled â'u bod o dan 7 oed 11 mis.

A allwch egluro'r canlynol - os yw dysgwr yn gweithio gyda 2 grŵp oedran, a oes rhaid i chi ei asesu yn y ddau grŵp oedran, neu a allwch asesu'r un grŵp oedran a gwaith ysgrifenedig ar gyfer y llall.

Rhaid bod tystiolaeth sy'n gysylltiedig â pherfformiad ar gyfer pob uned sy'n gysylltiedig ag oedran a gwblhawyd o fewn y cymhwyster hwn.

Sawl myfyrdod y disgwylir i ddysgwyr ei wneud?

Fel rhan o Dasg A mae log myfyriol sydd ar wahân i'r myfyrdodau a wneir yn Nhasgau C/Ch. Nid oes isafswm nac uchafswm nifer y myfyrdodau a ddisgwylir ar gyfer y log myfyriol, dylai aseswyr gefnogi dysgwyr i fyfyrio ar draws cwmpas llawn y cymhwyster. Dylai myfyrdodau fod yn seiliedig ar leoliad gwaith ac yn gyfannol eu natur.

Fel coleg mae gennym diwtoriaid yn ogystal ag aseswr sy'n cyflwyno'r cymhwyster hwn, rwy'n cymryd y gall tiwtoriaid hefyd 'asesu'r' logiau myfyriol hyn gan mai nhw yw'r rhai sy'n addysgu'r wybodaeth? A ellir mynd â nhw bob wythnos i'r coleg i diwtoriaid yno edrych arnynt hefyd?

Rhaid i aseswr cymwys a chymwysedig yn alwedigaethol wneud y penderfyniad terfynol o ran cymhwysedd. Mae'r strategaeth asesu ar gyfer y cymhwyster hwn yn cynnwys ymgorffori gwybodaeth a'i rhoi ar waith. Gall profi gwybodaeth ar wahân ymddangos fel rhan o'r broses addysgu a dysgu ffurfiannol, ond ni fyddai'n nodwedd o'r broses asesu grynodol.

Nid yw asesiadau sy'n seiliedig ar aseiniadau sy'n ceisio mesur gwybodaeth a dealltwriaeth yn unig yn nodwedd o'r strategaeth asesu hon.

Cyn belled â bod tiwtoriaid yn bodloni'r gofynion cymwys i asesu, gallant gynnal asesiad o unrhyw agwedd ar y tasgau asesu. Fodd bynnag, os yw mwy nag un aseswr yn rhan o'r broses asesu, yna rhaid nodi aseswr arweiniol. Yr aseswr arweiniol sy'n gwneud y penderfyniad terfynol o ran cymhwysedd.

I fod yn glir, ni ddylem fod yn gosod aseiniadau i fodloni meini prawf asesu ar gyfer y theori a addysgir yn yr ystafell ddosbarth? Ai'r dystiolaeth yw'r log myfyriol a gweddill y portffolio o dystiolaeth?

Ie, mae hynny'n gywir. Fodd bynnag, gellir defnyddio aseiniadau yn y broses addysgu, dysgu ac asesu ffurfiannol i fesur gwybodaeth a dealltwriaeth.

A yw Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol hefyd yn edrych ar y Deilliant Dysgu, ac os ydynt yn anghytuno â barn yr aseswr a fyddai hynny wedyn yn benodol i'r meini prawf asesu?

Mae barn asesu ar lefel deilliannau dysgu, felly dylai barn Swyddog Asesu Mewnol fod ar lefel deilliannau dysgu. Os yw Swyddog Asesu Mewnol yn anghytuno â barn aseswr, dylai gyfathrebu'n glir pam mae'n anghytuno, gan ganolbwyntio ar gysyniad a meysydd ymarfer yn hytrach na meini prawf asesu unigol.
Pan fydd aseswr yn cyfleu barn i'r dysgwr, dylid ei atgoffa bod penderfyniadau'n ddibynnol ar sicrhau ansawdd mewnol.

A yw'r dysgwr yn cysylltu'r dasg â'r deilliant dysgu neu ai rôl yr aseswr ydyw?

Dylent rannu'r cyfrifoldeb. Fodd bynnag, efallai y bydd angen mwy o gymorth gan yr aseswr ar ddysgwyr llai hyderus. Yn hytrach na disgwyl i'r dysgwr feddwl mewn deilliannau dysgu, anogwch y dysgwr i feddwl mewn meysydd ymarfer. Yna gall yr aseswr wneud y cyswllt.